

CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun**, 12fed Hydref, 2020, drwy gyfrwng 'zoom' o 7.30 p.m. hyd 8.10 p.m.

Presennol: Y Cyngorydd Elin Hughes (Cadeiryddes)
Y Cyngorydd Dylan Parry Jones (Is-Gadeirydd)
Y Cyngorwyr David Brunelli, Carys H. Evans, Gwenan Griffith, Ifor Owen, Glyn Roberts, Michael Strain, Carys E. Williams, Glenys Williams, Siôn Williams
Y Cyngorydd Gareth Williams (Y Cyngorydd Sir)

37. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Croesawodd y Gadeiryddes yr aelodau i'r cyfarfod a diolchodd i'r Cyngorydd Michael Strain am hwylustod defnydd o'r cyfrwng 'zoom.'

38. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganwyd diddordeb gan Y Cyngorwyr Gwenan Griffith a Glyn Roberts a'r Clarc a nodir hynny o dan yr eitemau perthnasol.

39. CADARNHAU COFNODION

Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion y Cyngor 14eg Medi, 2020. Cynigiwyd gan Y Cyngorydd Michael Strain ac eiliwyd gan Y Cyngorydd Glyn Roberts.

MATERION YN CODI –

(1) Eitem 28 – Cadarnhau Cofnodion – is-gymal 2 (Eitem 24) Hyfforddiant gan Un Llais Cymru (tudalen 1)

Adroddodd y Clarc, yn anffodus, nad oedd wedi gallu mynychu unrhyw hyfforddiant yn ystod y mis diwethaf a hynny oherwydd pwysau gwaith dyddiol.

Nodwyd y sylwad.

(2) Eitem 30 – Materion Ffyrdd a Llwybrau

Adroddwyd fod y Swyddog perthnasol o Gyngor Gwynedd yn cadarnhau y bydd yn cael golwg ar y sefyllfa ynglyn a chodi arwyddion yn ardal Botwnnog i rwysto loriau trymion ac hefyd yn cael golwg ar y sefyllfa yn Saithbont, Botwnnog.

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth.

(3) Eitem 24 – Llywodraethwyr Ysgol Pont-y-Gof, Botwnnog (tudalen 3)

Adroddodd y Clarc nad oedd wedi derbyn unrhyw ohebiaeth o Gyngor Gwynedd ynglyn ag enwebu llywodraethwr ar gyfer Ysgol Pont-y-Gof, Botwnnog.

Penderfynwyd enwebu'r Cyngorydd Gwenan Griffith ac i anfon yr enw ymlaen pan ddaw y gwahoddiad.

(4) Eitem 36 – Plannu Bylbiau

Adroddodd y Cyngorydd Gareth Williams, Y Cyngorydd Sir, ei fod bellach wedi derbyn caniatad gan yr Adran berthnasol yng Nghyngor Gwynedd i symud ymlaen i blannu'r bylbiau yn y dair Ward. 'Roedd yr aelod yn y broses o gyflwyno cais am grant gan AHNE ar gyfer prynu'r bylbiau. Addawodd yr aelod adrodd yn ôl i gyfarfod nesaf o'r Cyngor ar y datblygiadau diweddaraf.

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad.

40. CEISIADAU CYNLLUNIO

Trafodwyd y ceisiadau a ganlyn:

- (a) Cais C20/0720/32/LL – dymchwel dau estyniad presennol ac adnewyddu'r prif adeilad ynghyd ag estyniad ochr a chefn newydd. Yr oll yn unllawr – 2 Pentre, Botwnnog.
- (b) Cais C20/0703/32/LL – codi adeilad amaethyddol i storio peiriannau yn Nhreffollwyn Bach, Botwnnog.
Nodyn - tra bu'r Cyngor yn trafod y cais yma (b) rhoddwyd y Cyngorwyr Gwenan Griffith a Glyn Roberts yn yr 'ystafell aros' ac ni chymerasant ran yn y drafodaeth na'r pleidleisio.
- (c) Cais C20/0764/32/LL – ymestyn tymor gwyliau carafannau o 8 mis i 12 mis i fod yn agored trwy'r flwyddyn ar gyfer defnydd gwyliau – Maes Carafannau Gelliwig Farm, Botwnnog.
- (d) Cais C20/753/32/DT – codi estyniad deulawr cefn yn Nhan-y-Maen, Penygroeslon.
Nodyn - tra bu'r Cyngor yn trafod y cais yma (d) rhoddwyd y Clarc yn yr 'ystafell aros' ac ni chymerodd ran yn y drafodaeth.

Penderfynwyd

- 1. Cefnogi'r ceisiadau a nodir o dan gymal (a), (b) a (d) uchod.
- 2. Gwrthwynebu cais o dan gymal (c) uchod. Teimlid, o dan yr amgylchiadau yr ydym ynddo ar hyn o bryd, fod y Gwasanaeth Iechyd o dan straen arthurol fel ac y mae, a byddai caniatáu cais o'r fath yn annog mwy o ddiethriaid i'r ardal am gyfnod hwy ac yn rhoi mwy o bwysau fyth ar wasanaeth sydd yn amhrisiadwy i'r ardal gyfan.

Yng nghyswllt cais (a) a (b) 'roedd y cyfnod o 21 niwrnod i gyflwyno sylwadau wedi dod i ben cyn cyfarfod o'r Cyngor ac er gofyn ddwy waith i'r Adran Gynllunio a fyddant yn barod i aros am sylwadau ni dderbyniwyd unrhyw ymateb ganddynt. Felly yn anffodus i'r ymgeiswyr ni ymatebwyd o fewn y cyfnod statudol.

41. MATERION FFYRDD A LLWYBRAU

Penderfynwyd, yn dilyn derbyn cwynion, anfon y materion a ganlyn i:

(a) Y Swyddog Llwybrau:

Angen sylw i Lwybr Pengopa, Bryncroes.

Angen sylw i gamfa Siop Rhos, Bryncroes

Ac hefyd angen sylw i gamfa ger Argraig, Sarn.

Mwsog wedi tyfu ar Lwybr Bach, Botwnnog ac yn berygl i ddefnyddwyr – angen sylw.

(b) Anfon unwaith eto at y Peiriannydd Rhanbarthol ynglyn a'r cyfarfod bwriededig oedd i'w gynnal ger Neuadd Sarn ynglyn a'r llifogydd sy'n dod i lawr yr allt o gyfeiriad Ty Newydd. Addawodd Y Cyngorydd Glyn Roberts y byddai ef yn barod i gyfarfod y Swyddog ar y safle.

42. **MATERION IECHYD**

Nid oedd unrhyw fater wedi dod i sylw'r Cyngor i'w anfon ymlaen at Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru.

43. **CYNGOR TREF NEFYN**

Cyflwynwyd cais am gefnogaeth gan Gyngor Tref Nefyn i fesurau fyddai'n atal tai rhag mynd o afael y bobl leol – copi wedi ei anfon i bob aelod gyda'r rhaglen.

Penderfynwyd cefnogi'r ymgyrch.

44. **O DDRWS I DDRWS**

Cyflwynwyd llythyr gan Is-Gadeirydd O Ddrws i Ddrws yn gwahodd y Cyngor i enwebu cynrychiolydd i wasanaethu ar y Bwrdd Rheoli (copi wedi ei anfon i bob aelod gyda'r rhaglen).

Trafodwyd y llythyr a **phenderfynwyd** fod unrhyw aelod a diddordeb i ymateb i'r cais yn uniongyrchol.

45. **AWDURDOD I DALU**

Penderfynwyd awdurdodi talu Arfon Parry, Cradur.com am ei wasanaeth i'r Cyngor drwy osod y cofnodion a.y. ar y wefan - £20 (siec 200708)

46. **ARCHWILIAD Y CYFRIFON I FYNY I 3 Iain MAWRTH, 2020**

Adroddodd y Clarc fod un cwestiwn wedi ei ofyn gan yr Archwilwyr ar 7fed Hydref, 2020, sef pryd cafodd y ffurflen flynyddol ei chymeradwyo. Ymatebwyd i'r Archwilwyr ar 8fed Hydref, 2020, gyda'r wybodaeth.

Gofynnodd y Clarc a fyddai'n cael hawl i alw cyfarfod arbennig o'r Cyngor i dderbyn adroddiad yr Archwilwyr os i law cyn cyfarfod mis Tachwedd.

Penderfynwyd cydsynio i gais y Clarc.